

POLISI DRAFFT AR DDATBLYGU POTENSIAL DISGYBLION MWY ABL A THALENTOG

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein staff a rhieni, rydym yn sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd y nôd yn ôl ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas eangfrydig, bositif a diogel.

Diffiniad

- Mae'r term 'mwy galluog' yn cwmpasu disgyblion sy'n fwy galluog yn academaidd ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r term 'talentog' yn cwmpasu'r rhai sy'n dangos talent arbennig mewn un maes neu feysydd mwy penodol fel sgiliau chwaraeon, cerddor medrus yn ogystal â sgiliau arwain a rhyngpersonol.

Yn gyffredinol yng Nghymru, gall tua 20% o boblogaeth yr ysgol fod yn fwy galluog tra gellir ystyried y 2% uchaf yn eithriadol. Mae'n bosib bod gallu uchel a thalentau yn datblygu a dirywio dros amser. Bydd rhai dysgwyr yn fwy galluog a thalentog mewn cyfnod penodol yn ystod eu datblygiad ac efallai na fydd hyn yn barhaol.

Dulliau Adnabod

Gellir defnyddio sawl meini prawf er mwyn adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog ac ymrwymwn i gasglu gymaint o wybodaeth ag sy'n bosib am y disgyblion.

- Gwybodaeth gan yr ysgolion cynradd am allu a thalentau disgyblion.
- Cyfle i rieni Blwyddyn 6 i gwblhau holiadur am dalentau a diddordebau y disgyblion.
- Data - NFER CA2 a CA3, CAT, Lefelau CA3 mewnol, canlyniadau TGAU ac UG/A2, Targedau Fischer Family Trust (FFT).
- Rhestrï cyfeirio pwnc benodol.
- Barn broffesiynol staff.
- Sylwadau anffurfiol gan rieni ac arbenigwyr allanol.

Sut ydym yn darparu ar gyfer y disgyblion?

- Cydlynnydd Mwy Abl a Thalentog wedi'i benodi i arwain a monitro'r ddarpariaeth.
- Cydweithio gydag asiantaethau arbennigol fel NACE.
- Cyfleon datblygiad proffesiynol parhaus i staff sy'n ymdrin â dysgu ac addysgu a dulliau i ymestyn disgyblion.
- Codi ymwybyddiaeth staff am yr angen i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog a darparu cwricwlwm heriol ar eu cyfer.
- Nodir cyfleon ymestynnol ar gynlluniau gwaith pob adran.
- Sefydlu cofrestr o ddisgyblion mwy galluog a thalentog a'i dosbarthu i'r staff i gyd.
- Mae posibilrwydd bod rhai disgyblion yn gallu astudio pynciau opsiwn TGAU a Safon Uwch ychwanegol ac yn gynharach na chyfoedion yn y flwyddyn ysgol.
- Annog disgyblion i fynychu sesiynau/ darlithoedd yn y brifysgol e.e. STEM (Prifysgol Aberystwyth).
- Cyfleon i ddisgyblion mwy galluog a thalentog i weithio gyda'i gilydd mewn gweithdai arbenigol fel y Sgwad Sgwennu, BBC News Report, Gweithdai Pontio gyda'r ysgolion cynradd.
- Annog disgyblion i fynychu clybiau/digwyddiadau lleol a chenedlaethol, cystadlaethau a chyrsgiau preswyl.
- Sesiynau mentora a gofal bugeiliol gan eu tiwtor personol.
- Creu Cynllun Dysgu Unigol ar gyfer disgyblion eithriadol a'u mentora yn rheolaidd.
- Asesu, tracio cynnydd ac adnabod tangyflawni yn unol â Pholisi Asesu ar gyfer Dysgu'r Ysgol
- Rydym yn trefnu ffug gyfweiliadau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gan arbenigwyr yn y meysydd y mae disgyblion unigol yn dangos gallu neu ddawn ynddynt.
- Rydym yn cynnig cymorth ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt.
- Seremonïau gwobrwyo blynyddol i ddathlu llwyddiannau.

Rolau a Chyfrifoldebau

Rôl y Llywodraethwyr

- Sicrhau bod ffocws ar y plant Mwy Abl a Thalentog yn yr ysgol.
- Bod â throsolwg a chyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog o fewn yr ysgol ac i sicrhau adnoddau digonol.
- Mae penodi llywodraethwr i gymryd diddordeb arbennig mewn plant Mwy Abl a Thalentog yn dangos y flaenoriaeth a roddir gan y Corff Llywodraethol i'r maes yma.
- Y llywodraethwr sy'n gyfrifol am y plant Mwy Abl a Thalentog yw
- Mynychu hyfforddiant ar addysg plant Mwy Abl a Thalentog.

c) Rôl y Pennaeth/Uwch Dîm Rheoli

- Cynllunio a rheoli'n effeithiol ymagwedd tuag ar ragoriaeth drefniadol h.y. sicrhau bod amcanion dynodedig yn cael eu cyrraedd yn erbyn paramedrau cytunedig ar ansawdd, amserlen a chost. Dylai'r amcanion hyn fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn a'r ysgol drwy osod a chyflawni targedau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- Dyrannu cyfran o'r gyllideb i addysgu a dysgu disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
- Cynorthwyo i fapio ac archwilio sgiliau a rolau yn yr ysgol ac yna i ddarparu HMS priodol i staff a monitro perfformiad.
- Adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol fel ei fod yn cadw parhad, datblygiad, ehangder a chydbwysedd.
- Bod â rôl yn strategol mewn hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng adrannau ac ar draws y cwricwlwm cyfan o ran plant Mwy Abl a Thalentog.
- Sicrhau bod disgyblion dawnus a thalentog yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Staff/Gwella Ysgol a bod arfer gorau a phrofiadau yn cael eu rhannu ymhlith staff.
- Cychwyn polisi ysgol gyfan o wobrau a chydabyddiaeth am waith a/neu gynnydd

eithriadol. Dylai cydnabyddiaeth gyhoeddus o waith disgyblion Mwy Abl a Thalentog ddigwydd gan gofio bod rhai yn swil ac yn fewnblyg iawn ac y gellid gwneud niwed mawr i'w hunan hyder os oes rhaid iddynt fynd i'r blaen i dderbyn gwobr neu glod.

- Gwella dealltwriaeth rhieni o sut y gallent gefnogi addysg eu plentyn e.e trwy wefannau priodol.

ch) Rôl y Cydlynnydd MAT

- Darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgol, athrawon a staff cefnogi er mwyn eu cynorthwyo a'u galluogi i ddiwallu anghenion plant MAT

- Cydweithio gyda'r athro dosbarth i lunio targedau a strategaethau ar gyfer diwallu anghenion disgyblion Mwy Abl a Thalentog .

- Defnyddio data i dracio cynnydd plant MAT.

- Cydlynu ymyrraeth penodol Mathemateg a iaith o fewn y sesiynau cofrestru.

- Cydlynu gyda NACE a rhaeadru gwybodaeth berthnasol gydag aelodau'r staff.

d) Rôl y Pennaeth Adran

- Sicrhau y caiff disgyblion Mwy Abl a Thalentog eu hystyried ac y cyfeirir atynt mewn polisi ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu ac mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau datblygu.

- Gwerthuso darpariaeth yr ystafell ddosbarth ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog yn y gylchred gynllunio a datblygu flynyddol.

- Cynorthwyo staff i gynllunio ac adeiladu ar sgiliau presennol ac i lunio targedau clir, perthnasol a chyraeddadwy ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog.

- Cyfeirio achosion disgyblion dawnus a thalentog i'r cydlynnydd MAT.

- Sicrhau y caiff disgyblion Mwy Abl a Thalentog eu trafod mewn cyfarfodydd staff neu

gyfarfodydd adran, ac y rhennir arfer gorau a phrofiadau ymhlith y staff.

- Defnyddio canlyniadau arfarnu dysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

dd) Rôl yr Athro

- Mae'n rhaid i bob aelod o'r staff fod yn ymrwymedig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog - ac yn bwysicach na dim, mae'n rhaid i'r holl staff addysgu gefnogi ei gilydd ac yn eu tro, dderbyn cefnogaeth y UDRh.
- Cynorthwyo i ddynodi a chyfeirio plant sy'n Fwy Abl a Thalentog ac sydd angen cefnogaeth i'r Pennaeth Adran a chydlynedd MAT.
- Asesu anghenion datblygu personol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a dulliau dysgu.
- Mae hi'n bwysig darparu gweithgareddau sydd yn defnyddio strategaethau sgiliau meddwl uwch e.e cynllunio cwestiynau agored heriol.
- Gosod tasgau sydd yn ymwneud â datrys problemau ac ymchwil trylwyr.
- Caniatau plant MAT i hepgor ymarfer y sgiliau sylfaenol y maent wedi'u meistroli er mwyn canolbwyntio ar ddysgu cyfoethocach ac ehangach.
- Gwahaniaethu gwaith cartef.
- Cyfranogi mewn gwneud addysgu yn fwy effeithiol o ran cynnwys pwnc a dull addysgu a thrwy hynny gyfoethogi addysg y disgybl.
- Hwyluso dysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau priodol ac ystyrlon sy'n cynnwys disgyblion yn y broses ddysgu.
- Helpu disgyblion i wneud synnwyr, a dehongli gwybodaeth a digwyddiadau er mwyn prosesu'r profiad a chreu gwybodaeth.
- Gosod nodau clir a'u cyfathrebu i bob disgybl ar ddechrau'r wers.
- Sicrhau bod gan blant Mwy Abl a Thalentog fynediad at y cwricwlwm drwy ddarparu'r sefyllfa lle bydd profiad pob disgybl o gynnwys a sgiliau yn cyfateb i'w raddfa dysgu ef/hi ac y defnyddir deunyddiau a strategaethau dysgu amgen, gwahaniaethol.
- Trafod targedau a strategaethau gyda'r plentyn sydd wedi'i adanabod fel plentyn MAT

e) Rôl y Rhieni/Gwarchodwyr -

- Cynghori a rhannu syniadau / strategaethau gyda'r rhieni fel eu bod yn gallu cefnogi addysg y plentyn yn fwy effeithiol.

- Sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhieni â'r athro er mwyn rhannu gwybodaeth am dalentau neu ddiddordebau arbennig y plentyn.

Rydym am i rieni fod yn rhan o'r bartneriaeth drwy eu hannog a'u cefnogi adref.

Rhoddir cyfle i athrawon pynciol drafod gallu a photensial eich plentyn mewn nosweithau rhieni. Byddwch hefyd yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eich plentyn drwy gyfrwng ein hadroddiadau interim a llawn. Gweler y wybodaeth gan bob adran cwricwlaidd ar gyfer gweithgareddau ymestynnol a rhestr o wefannau ar gyfer gwaith ymchwil annibynnol.

Canllawiau i Rien

Sut mae rhieni yn gallu cefnogi eu plentyn?

- Neilltuo amser bob dydd i drafod gyda'ch plentyn.
- Cynorthwyo eich plentyn gyda hunan-drefn a rheoli amser trwy wneud defnydd effeithiol o ddyddiadur eich plentyn.
- Annog eich plentyn i roi cynnig ar weithgareddau newydd trwy ymuno â'r lluo o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol.
- Cyfoethogi profiadau eich plentyn trwy annog ymweliadau e.e. orielau celf, amgueddfeydd, canolfannau chwaraeon.
- Ysbarduno diddordeb trwy annog eich plentyn i ddefnyddio adnoddau yn y cartref e.e. y rhyngwyd, llyfrau, mapiau, gwyllo rhaglenni/ffilmiau.
- Rhoi cyfle i'ch plentyn gyfarfod â phlant sy'n rhannu'r un diddordebau e.e. trwy ymaelodi â chlybiau a chymdeithasau lleol.
- Annog eich plentyn, os daw'r cyfle, i fynychu gweithdai, dosbarthiadau meistr a darlithoedd prifysgol.
- Cysylltwch gyda'r ysgol os oes cwestiynau neu bryderon ynglyn â'ch plentyn.
- Sicrhau bod eich plentyn yn cael cyfle i ymlacio, mwynhau ac i gael amser hamdden!

Llyfrgell MAT

Mae'r ysgol wedi trefnu llyfrgell yn cynnwys llyfrau cyfrwng Saesneg a Chymraeg ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog. Bydd plant sydd ar gofnod MAT yn dod i fenthyg neu ddychwelyd llyfrau yn ystod eu gwersi Cymraeg a Saesneg ac yn ystod amser egwyl a chinio. Cedwir cofnod o'r holl lyfrau a benthycir gan y plant. Gall darllen fod yn un o'r gweithgareddau hamdden mwyaf pleserus ar gyfer plant yn gyffredinol, ac yn fwy arbennig ar gyfer unigolion Mwy Abl a Thalentog, ac mae'r rhestr a ddewiswyd yn sicr o ddenu. Fodd bynnag weithiau bydd angen ychydig o arweiniad i ddod o hyd i'r llyfrau sydd fwyaf addas ar gyfer eu diddordebau a'u galluoedd.

Holiaduron

Mae llais y plentyn yn hollbwysig. Defnyddir holiaduron unigol a dosbarth er mwyn hunan arfarnu a chanfod gwybodaeth am sut mae'r plentyn yn dysgu. Mae plant yn elwa wrth berchnogi rheolaeth dros eu haddysg. Mae'r athrawon yn elwa trwy ddysgu am y ffordd mae plant yn hoffi dysgu.

Pontio

Rydym bob amser yn sicrhau bod y disgyblion sydd ar gofrestr Mwy Abl a Thalentog yn hysbys i ni fel y gallant drosglwyddo'n effeithiol. Darperir ffurflen benodol i'r ysgolion cynradd ym mis Mai er mwyn nodi cryfderau'r plentyn Mwy Abl a Thalentog. Gwneir hyn er mwyn hwyluso trosglwyddo effeithiol ac er mwyn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth. Caiff y ffurflenni eu cwblhau gan yr athro/athrwes cynradd. Trefnir cyfarfod gyda'r athrawon cynradd a pennaeth Blwyddyn 7 a'r Cydlynnydd MAT ar ddechrau mis Mehefin er mwyn trafod plant MAT.

Darpariaeth Strategol: CYFOETHOGI AC EHANGU

- **Cyfoethogi** : Sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn gyfoethog o ran ansawdd
- **Ehangu** : Sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn ymestyn ac ehangu dealltwriaeth a phrofiad.

Bydd athrawon yn sicrhau bod disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn cael eu herio'n briodol, yn addasu maint ac /neu ehangder a chynnwys y tasgau a gyflwynir iddynt.

Caiff y disgyblion gyfle i ddarllen, ysgrifennu a siarad am eu gwaith ac i gyfranogi mewn trafodaethau a/neu i weithio gyda disgyblion eraill.

Bydd athrawon yn gosod targedau ac yn tracio cynnydd mewn ymgynghoriad â'r cydlynnydd MAT gan ddefnyddio amrediad o arsylwadau/ profion mewnol a statudol.

Bydd rhai disgyblion yn derbyn cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ac fe gaiff nifer fechan eu tynnu allan ar gyfer mwy o gymorth mewn ardal arall e.e ymyrraeth foreol iaith a mathemateg.

Y Cwricwlwm

Nid oes cwricwlwm manwl, safonol ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog, oherwydd bod eu hanghenion yn unigol iawn. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwaith wedi'i seilio ar dargedau er mwyn:

- diwallu anghenion plant unigol;
- adeiladu ar eu cryfderau unigol;
- annog datblygiad mewn meysydd y mae angen cefnogaeth arnynt.

Ar gyfer pob disgybl mae cwricwlwm ysgol wedi'i strwythuro'n dda, ac yn ymgorffori gwahaniaethu gan sicrhau amgylchedd y gallant ffynnu ynddo. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig cofio y gall plant mwy abl a thalentog fod ar y blaen i'w cyfoedion o sawl blwyddyn yn academiaidd ond yn dal i fod yn debyg i'w hoedran cronolegol yn emosiynol a chymdeithasol.

Sut mae cael mwy o wybodaeth?

Gallwch wella ar eich gwybodaeth a dealltwriaeth am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yng Nghymru trwy ymweld â rhai o'r gwefannau yma.

- <http://www.nace.co.uk/> - y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg ac mae ardal NACE Cymru ar y wefan sy'n esbonio'r ddarpariaeth yng Nghymru.
- Gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090915curriculumopportunitycy.pdf>
<http://new.wales.gov.uk/publications/circular/2008/meetingthechallenge/?lang=cy>
- <http://www.nagcbrtain.org.uk/> - cyngor defnyddiol i rieni a gwybodaeth am rwydweithiau cenedlaethol sy'n benodol ar gyfer Lloegr.
- <http://www.aquila.co.uk/> - cylchgrawn hwyliog ar gyfer disgyblion 8-13 oed.
- <http://www.mensa.org.uk/>
- <http://www.tomorrowsachievers.co.uk/> - arbenigwyr sy'n cynnig dosbarthiadau meistr yn Lloegr.